MESUR ADDYSG

# MEMORANDWM LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU AR Y DARPARIAETHAU FFRAMWAITH AR GYFER CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## Cyflwyniad

1. Mae'r memorandwm hwn yn nodi cefndir a chyd-destun perthnasol cymalau 72 a 73 o'r Mesur Addysg, sy'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") ynglŷn â rheoleiddio athrawon a'r gweithlu addysg ehangach yng Nghymru a chyllido'r system addysg cyn-16 yng Nghymru.

2. Cyhoeddodd Llywodraeth Glymblaid y DU ei Phapur Gwyn ar ysgolion, *'The Importance of Teaching'*, ym mis Tachwedd. Ymhlith materion eraill, roedd y Papur Gwyn yn cynnig diddymu'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn Lloegr, ynghyd â'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion, gosod trefniadau newydd yn eu lle i reoleiddio'r proffesiwn addysgu, a diwygio'r system ar gyfer cyllido ysgolion.

## Refferendwm yng Nghymru

3. Mae Rhan 4 o deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) ("Ddeddf 2006") yn cynnwys darpariaethau ("darpariaethau Deddfau'r Cynulliad") a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i basio deddfwriaeth a elwir yn Ddeddfau Cynulliad, os oes mwyafrif o'r rhai sy'n pleidleisio mewn refferendwm yng Nghymru o blaid hynny (ac os yw'r Cynulliad yn cymeradwyo gorchymyn i gychwyn y darpariaethau). Mae Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 Act yn pennu pa bynciau y caiff y Cynulliad basio Deddfau ynglŷn â hwy, ac yn nodi pa bynciau a eithrir ac a fydd yn parhau heb eu datganoli.

4. Nid yw'r Materion a fewnosodir ac a estynnir gan y pwerau fframwaith yn y Mesur hwn wedi eu pennu mor fanwl yn Atodlen 7, ond maent eisoes o fewn

cwmpas y pynciau ehangach a grybwyllir ym mharagraff 5 o Ran 1 o’r Atodlen honno, sy’n cynnwys “education, vocational, social and physical training”.

5. O ganlyniad, pe digwyddai pleidlais gadarnhaol yn y refferendwm (y disgwylir ei gynnal ar 3 Mawrth 2011), byddai modd i’r Cynulliad ddeddfu ynglŷn â’r materion hyn. Ond pe digwyddai pleidlais nacaol, byddai’r drefn bresennol yn parhau, a gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio cymhwysedd deddfwriaethol i’r Cynulliad fesul achos unigol, drwy gyfrwng pwerau fframwaith mewn Deddfau Seneddol a Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCDau) o dan adran 95 o Ddeddf 2006. Os gwireddir y senario hwnnw, byddai’r pwerau fframwaith yn y Mesur hwn yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i’r Cynulliad yn y meysydd penodol o reoleiddio athrawon a’r gweithlu addysgol ehangach yng Nghymru a chyllido’r system addysg cyn-16 yng Nghymru.

## <u>Y Cefndir</u>

6. Mae Rhan 3 o Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer i’r Cynulliad basio deddfwriaeth e elwir yn Fesurau’r Cynulliad. Gall Mesur Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gellid ei gwneud drwy Ddeddf Seneddol, yn ddarostyngedig i’r cyfyngiadau a bennir yn Neddf 2006.

7. Caiff y Cynulliad basio Mesurau mewn perthynas â’r “Materion” a restrir yn y “Meysydd” (20 ohonynt ar hyn o bryd) a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Gellir ychwanegu at gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy ychwanegu Materion newydd yn y Meysydd yn Rhan 1 o Atodlen 5. Mae Deddf 2006 yn cynnwys pŵer yn i ychwanegu Materion drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Gall Deddfau Senedd y DU hefyd fewnosod Materion yn Rhan 1 o Atodlen 5, a chyfeirir at ddarpariaethau o’r math hwnnw fel “pwerau fframwaith”.

## A) RHEOLEIDDIO A HYFFORDDI ATHRAWON A’R GWEITHLU ADDYSG EHANGACH YNG NGHYMRU

8. Byddai’r cymal j129 yn estyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy fewnosod y Materion newydd 5.15A i 5.15C ym Maes 5: Addysg a Hyfforddiant a diwygio’r Materion presennol 5.15 a 5.16 yn y Maes hwnnw. Yn

benodol, byddai'r cymal yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ynglŷn â hyfforddi a rheoleiddio athrawon a'r gweithlu addysg ehangach yng Nghymru ac ynglŷn â'u safonau proffesiynol.

**Y Cyd-destun**

9. Pennod 1 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998") a sefydlodd Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr (GTCE) a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC). Er bod y GTCE a ChyngACC ill dau wedi eu sefydlu o dan Ddeddf 1998 gyda chylchoedd gwaith craidd cyffelyb, datblygodd eu rolau i gyfeiriadau gwahanol, ac nid yw'r naill gorff bellach yn adlewyrchiad o'r llall; er enghraifft, mae CyngACC yn rheoli rhaglen ar gyfer cyllido Ymsefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar athrawon ac yn ymgymryd â gweithdrefnau ynglŷn ag addasrwydd athrawon sy'n gwneud cais am gofrestru. Nid yw'r GTCE yn cyflawni'r swyddogaethau hynny; ond yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru, mae'r GTCE yn gweithredu system gofrestru amodol.

10. Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaethau ar gyfer diddymu'r GTCE a throsglwyddo rhai o'i swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r rhain yn cynnwys ymchwilio i achosion o gamymddwyn proffesiynol; datblygu a chynnal rhestr o'r bobl a waharddwyd rhag addysgu; a dyroddi canllawiau ynglŷn ag ymddygiad proffesiynol athrawon. Ar yr union adeg hon, y bwriad yng Nghymru yw y bydd Deddf 1998 yn parhau mewn grym i'r graddau y mae'n ymwneud â'r CyngACC, hyd nes bydd Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgynghori'n llawn ynghylch rôl a chylch gwaith y Cyngor yn y dyfodol a'r angen i'w gadw.

11. Mae'r Mesur hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer diddymu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion (TDA), newidiadau canlyniadol sy'n tarddu o'r darpariaethau hynny a darpariaethau amrywiol ynglŷn â swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â hyfforddi gweithlu'r ysgolion (gweler paragraffau 20-22 am fanylion pellach ynglŷn â'r TDA).

**MESUR ADDYSG**

**Y Sefyllfa Bolisi Gyfredol yng Nghymru**

12. Mae'r trefniadau cyfredol ar gyfer safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus yng Nghymru wedi datblygu mewn ffordd dameidiog, ac y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach o'r farn y dylid ail alinio'r trefniadau hynny er mwyn sicrhau dull cydlynol o weithredu. Yn *Cymru'n Un*[1], sef agenda Llywodraeth y Cynulliad yng Nghymru, pwysleisiwyd yr angen am staff cwbl broffesiynol ac ymrwymedig yn yr ysgolion. Rhoddwyd addewid hefyd y datblygid strwythur cenedlaethol ar gyfer cynorthwywyr dosbarth.

13. Rhwng Medi a Rhagfyr 2009, cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad[2] o safonau proffesiynol ymarferwyr addysgol yng Nghymru (y tu allan i addysg uwch) a'r trefniadau ar gyfer rheoli eu perfformiad a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Canfyddiad yr adolygiad hwnnw oedd mai bratiog yw'r trefniadau presennol, ac nad ydynt yn ddigon cadarn a chanolbwyntiedig ar gyfer cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad o ran gwella addysg. Canfu'r adolygiad hefyd fod angen gwell cydlyniad a chydweithio rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol.

14. Yn draddodiadol, mae'r polisïau ynglŷn â datblygiad proffesiynol, rheoli perfformiad a safonau proffesiynol wedi canolbwyntio, ar athrawon ysgol a phenaethiaid ysgolion. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r newid cyflym a ddigwyddodd yn y gweithlu addysg er 2003, a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion megis y Cyfnod Sylfaen a'r Llwybrau Dysgu 14-19, mae'r ystod o bobl sy'n cyflenwi addysg i ddysgwyr yng Nghymru erbyn hyn yn llawer ehangach. Mae'r gwahaniaethau rhwng y gwahanol grwpiau proffesiynol, o ran cyfleoedd ac atebolrwydd, yn dod yn fwyfwy amlwg. Mae hyn yn effeithio ar y modd y canfyddir y gwahanol sectorau o fewn y gweithlu

[1] "Cymru'n Un : rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru", 2007
[2] "Canlyniad yr adolygiad o ddatblygiad proffesiynol parhaus, rheoli perfformiad a safonau proffesiynol" (Datganiad gan y Gweinidog Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, 2010)

addysg; yn gweithredu fel rhwystr i ddealltwriaeth a dulliau gweithredu cyffredin; ac yn lleihau hyblygrwydd a symudedd o fewn y gweithlu addysgol.

15. Mae ymchwil ryngwladol[3] yn dangos mai datblygu'r gweithlu yn effeithiol yw'r ffordd orau i wella addysgu a dysgu. Dengys inni hefyd fod safonau proffesiynol, rheolaeth perfformiad a datblygiad proffesiynol, yn y systemau addysg mwyaf effeithiol, yn cydweithio i wella'r addysgu a'r dysgu, a thrwy hynny yn ysgogi effeithiolrwydd addysgol ehangach. Mae ansawdd uchel yr addysgu, y dysgu a'r arweinyddiaeth, felly, yn hollbwysig ar gyfer llwyddiant y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY). Agenda yw'r FfEY ar gyfer gwella ysgolion,  ac y mae'n seiliedig ar gael ysgolion ac awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd. Pwrpas y cydweithio yw rhannu'r arferion gorau, rhannu adnoddau a chyfleusterau a thrwy hynny agor cyfleoedd newydd i ddysgwyr.

16. Bwriad polisi Gweinidogion Cymru yw datblygu un system drosfwaol syml a chyson ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru. Bydd y system honno'n cynnwys continwwm o safonau proffesiynol a fframwaith ar gyfer datblygiad proffesiynol, a atgyfnerthir gan drefniadau cadarn i reoli perfformiad. Bydd yr elfennau hyn yn cydweithio fel system gydlynol i ysgogi gwell safonau addysgu a sicrhau gwell canlyniadau i'r dysgwyr.

17. Mae tair prif gydran yn y gwaith a fydd yn ysgogi'r newid a geisir:

- cefnogi newid ymddygiad a diwylliant drwy ledaenu gwybodaeth berthnasol o ansawdd uchel i ymarferwyr; darparu cyfleoedd a chyfleusterau ar gyfer rhannu ymarfer addysgol effeithiol; a chynnal rhagbrofion peilot ar ffyrdd ymarferol penodol o ysgogi newid, megis Cymunedau Dysgu Proffesiynol (cymuned ddysgu broffesiynol yw grŵp cynhwysol o bobl sydd â gweledigaeth gyffredin ynglŷn â dysgu ac sy'n cydweithio a chefnogi ei gilydd er mwyn dysgu dulliau newydd a gwell o hyrwyddo dysg pob un o'r disgyblion);

[3] *How the world's best performing school systems come out on top* (McKinsey and Company, 2007)

- newid rheoliadau a chanllawiau i'n galluogi i wella atebolrwydd yr ymarferwyr, a gorfodi newidiadau drwy arolygu a threfniadau llywodraethu;

- cynnal cyswllt agos â thimau gwella ysgolion yr awdurdodau lleol ac Estyn (sef swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r rhannau a chwaraeir gan bawb, i atgyfnerthu'r newidiadau systematig sy'n ofynnol.

18. Maes sydd â chysylltiad rhyngddo a datblygiad proffesiynol, rheoli perfformiad a safonau proffesiynol yw'r ddarpariaeth o hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Ar hyn o bryd, o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004") caiff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("CCAUC") achredu darparwyr cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon mewn perthynas â'r sector ysgolion a gynhelir. Yn ymarferol, mae'r darparwyr hyn i gyd yn sefydliadau addysg uwch (er bod Rheoliadau 2004 hefyd yn caniatáu i CCAUC achredu sefydliadau addysg bellach). Sefydliadau a achredir felly, yn unig, gaiff ddarparu cyrsiau sy'n arwain at statws athro cymwysedig cydnabyddedig. Mae CCAUC yn achredu'r darparwyr ar sail criteria statudol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru, yn unol â'u pŵer yn rheoliad 7(2) o Reoliadau 2004. Pennir y criteria achredu statudol cyfredol yn *Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006 (2006 Rhif 50)*, fel y'i diwygiwyd gan *Meini Prawf ar gyfer Achrediad Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Diwygio) 2006 (2006 Rhif 75)*. Cyhoeddir y criteria statudol hyn yn yr adran ddeddfwriaeth ar wefan llywodraeth Cynulliad Cymru (http://cymru.gov.uk/).

19. Ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon yn y sector ysgolion a gynhelir, mae achredu yn gysylltiedig ag arolygu. Rhaid i CCAUC gael sicrwydd bod y darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig presennol yn parhau i gydymffurfio â'r criteria achredu. Darperir y sicrwydd hwnnw'n bennaf drwy

gyfrwng proses arolygu Estyn a'r gweithdrefnau ar gyfer ymateb i unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth a ganfyddir yn ystod arolygiad.

20. Corff cyhoeddus Seisnig yw'r TDA, sy'n gyfrifol am hyfforddi a datblygu'r gweithlu ysgolion yn Lloegr. Caiff y TDA arfer ei swyddogaethau yng Nghymru hefyd, os gwneir cais gan Weinidogion Cymru, os yw'r TDA yn cydsynio â'r cais. Er bod gan y TDA ystod eang o gyfrifoldebau, yr unig faes gorchwyl y mae'n gweithredu ynddo yng Nghymru yw hwnnw sy'n ymwneud â hyrwyddo addysgu fel gyrfa.

21. Ynglŷn â'r gwaith hwnnw, gwnaed cytundeb rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r TDA a bennir mewn Memorandwm Dealltwriaeth (MD). Mae'r Memorandwm yn nodi'r ddarpariaeth o wasanaethau a ymgymerir ar ran Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo addysgu fel gyrfa, a'r ddarpariaeth o gyngor i Lywodraeth y Cynulliad ac i drydydd partïon. Mae hyn yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau, a ddarperir yn ddwyieithog, gan gynnwys Llinell Wybodaeth Addysgu sy'n bwynt cyswllt ar gyfer cyngor ar bob mater ynglŷn ag addysgu fel gyrfa; cynnal yr adrannau recriwtio ar wefan y TDA; a chynnal ymgyrchoedd yn y cyfryngau yng Nghymru a Lloegr.

22. Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer diddymu'r TDA ac yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru hyrwyddo gyrfaoedd yn y gweithlu ysgolion yng Nghymru (gweler paragraff 33).

**Cwmpas y pwerau arfaethedig**

23. Byddai'r Mater 5.15A yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ynglŷn â'r safonau proffesiynol – gan gynnwys hyfforddiant, datblygiad proffesiynol, rheoli perfformiad a chymwysterau – sy'n ofynnol gan athrawon a'r gweithlu addysg ehangach. (Yn ogystal ag athrawon ysgol a staff cymorth megis cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion, gellid cynnwys mewn deddfwriaeth o'r fath athrawon a staff cymorth addysg bellach ac amrediad eang o bersonau sy'n ymwneud â darparu addysg neu hyfforddiant cyn-16 neu ôl-16, megis darparwyr dysgu seiliedig ar waith, cynghorwyr gyrfaoedd a gweithwyr meithrinfa). Byddai'r

**MESUR ADDYSG**

Mater 5.15B yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas ag ymddygiad proffesiynol, recriwtio, achosion disgyblu, cofrestru a'r lefelau iechyd a ffitrwydd sy'n ofynnol gan athrawon a'r gweithlu addysg ehangach.

24. Byddai'r Materion 5.15A a 5.15B yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu er mwyn gwneud newidiadau i'r CyngACC. Gellid estyn ei gylch gwaith, newid ei gyfansoddiad, ei ddiddymu a gosod corff arall neu gyrff eraill yn ei le, neu roi swyddogaethau pellach i'r CyngACC, na fyddent o anghenraid yn gyfyngedig i athrawon. Gallai deddfwriaeth o'r fath sefydlu corff neu gyrff newydd i ymgymryd â chofrestru neu swyddogaethau eraill neu ymgymryd â threfn newydd o gofrestru. Gellid arfer darpariaeth o'r fath mewn unrhyw un neu'r cyfan o'r meysydd gweithlu addysgol, neu ba bynnag gyfuniad o'r meysydd a ddymunid.

25. Gyda'r pwerau fframwaith byddai modd gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion eraill ynglŷn â chynnal a gwella safonau proffesiynol; er enghraifft ymsefydlu, rheoli perfformiad, datblygiad proffesiynol parhaus, cymwysterau a safonau, yn ogystal â chofrestru a disgyblu. Byddai darpariaeth o'r fath yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi sylw i'r materion a nodwyd ei hadolygiad o safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol, a chaniatáu'r hyblygrwydd mwyaf i weithredu ar yr argymhellion a wnaed.

26. Yn ychwanegol, byddai'r pwerau fframwaith yn galluogi gwneud darpariaeth i helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni ei hymrwymiad o dan *Cymru'n Un* i ddatblygu strwythur cenedlaethol ar gyfer cynorthwywyr dosbarth.

27. Byddai'r Mater 5.15C yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad mewn perthynas ag achredu'r rhai sy'n darparu hyfforddiant i athrawon ac i'r gweithlu addysgol ehangach. Yn ogystal â chynnwys y system bresennol o achredu darparwyr gan CCAUC ar sail criteria a ddyroddir gan Weinidogion Cymru, byddai'r Mater hwn yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i achredu darparwyr, neu ganiatáu i bersonau eraill eu

hachredu; neu gellid ehangu cwmpas y ddarpariaeth yn y dyfodol, er enghraifft drwy ystyried canoli hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn ysgolion (yn unol â rhaglenni a gynllunnid ac a gyflenwid gan grwpiau o ysgolion a cholegau cyfagos). Byddai'r ddarpariaeth hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu naill ai i achredu darparwr cwrs neu achredu'r cwrs ei hunan. Byddai hefyd yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ynglŷn ag achredu rhai sy'n cyflenwi mathau eraill o gyrsiau datblygu proffesiynol, neu hyfforddiant i athrawon addysg bellach, neu achredu darparwyr cyrsiau eraill sy'n arwain at gymwysterau y gall fod yn ofynnol i bersonau eu cael (neu achredu'r cyrsiau eu hunain).

28. Byddai'r Mater 5.15C hefyd yn cynnwys cyllido hyfforddiant. Er enghraifft, byddai'n galluogi'r Cynulliad i ddeddfu i gryfhau neu ehangu pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r modd y mae CCAUC yn cyllido hyfforddiant cychwynnol athrawon, neu ddarparu ar gyfer trefn wahanol o gyllido hyfforddiant.

29. Mae Materion 5.15(c) a 5.16(c) o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 Act yn caniatáu i Fesur wneud darpariaeth ynglŷn ag arolygu hyfforddiant athrawon a chynorthwywyr addysgu arbenigol mewn ysgolion, a'r cyngor a'r wybodaeth a roddir mewn cysylltiad â'r hyfforddiant, a chynnal astudiaethau mewn perthynas â hyfforddiant o'r fath. Byddai cymal [j129](2) a (4) yn diwygio'r Materion hyn drwy alluogi'r Cynulliad i ddeddfu er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynglŷn ag arolygu hyfforddiant ar gyfer ysgolion a'r gweithlu addysgol ehangach (a darparu cyngor a gwybodaeth a chynnal astudiaethau mewn perthynas â'r cyfryw hyfforddiant).

30. Byddai'r Mater 5.15B(b) a'r Mater diwygiedig 5.16(c) hefyd yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad ynglŷn â hyrwyddo gyrfaoedd mewn ysgolion ac yn y gweithlu addysgol ehangach. Gellid arfer y ddarpariaeth hon mewn perthynas ag unrhyw un neu'r cyfan o'r gwahanol feysydd gweithlu addysgol, neu ba bynnag gyfuniad ohonynt a ddymunid.

**MESUR ADDYSG**

31. Byddai’r ddarpariaeth hon hefyd yn galluogi’r Cynulliad i ddeddfu i ganiatáu i Weinidogion Cymru ymgymryd â hyrwyddo gyrfaoedd mewn ysgolion ac yn y gweithlu addysgol ehangach, neu i berson neu gorff arall ymgymryd â hyrwyddo gyrfaoedd yn y gweithlu ysgolion, neu ar gyfer sefydlu corff newydd i wneud hynny.  Byddai hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi grantiau ar gael i unrhyw berson sy’n hyrwyddo gyrfaoedd mewn ysgolion ac yn y gweithlu addysgol ehangach. Byddai’r ddarpariaeth hefyd yn galluogi’r Cynulliad i ddeddfu er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru (neu berson neu gorff arall sy’n ymgymryd â hyrwyddo gyrfaoedd mewn ysgolion neu’r gweithlu addysgol ehangach) i ymgymryd â’u swyddogaethau ar y cyd ag unrhyw berson arall (gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol os yw’r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio).

32. Yn rhannol, diben y Mater 5.15B a’r Mater 5.16(c) diwygiedig  yw galluogi’r Cynulliad i ddeddfu er mwyn ymateb i ddiddymu’r TDA . Mae’n bosibl, fodd bynnag, y bydd bwlch yn y pwerau a fydd ar gael yn y maes hwn (yn y cyfwng rhwng diddymu’r TDA a gweithredu unrhyw Fesur y Cynulliad a seilir ar y Mater 5.15B a’r Mater diwygiedig 5.16(c)).

33. Mae’r cymal [j021](2) yn cynnwys mewnosod adran 84B newydd yn Neddf Addysg 2005, a fyddai’n darparu pŵer i Weinidogion Cymru hyrwyddo gyrfaoedd yng ngweithlu ysgolion Cymru. Byddai’n caniatáu i Weinidogion Cymru arfer y pŵer hwnnw ar y cyd â’r Ysgrifennydd Gwladol neu unrhyw berson arall sydd â swyddogaethau ynglŷn â gyrfaoedd yn y gweithlu ysgolion; neu ar gyfer arfer y pŵer hwnnw ar ran Gweinidogion Cymru gan unrhyw berson arall. Pe byddid yn deddfu felly, byddai’r ddarpariaeth yn sicrhau bod pwerau yn y maes hwn yn parhau ar gael i Weinidogion Cymru, heb y bwlch y cyfeirir ato uchod.

34. Ni fyddai’r ddarpariaeth hon yn dyblygu’r cymhwysedd deddfwriaethol a ddarperir gan y Mater 5.15B a'r Mater diwygiedig 5.16(c). Cyfyngir cymhwysedd yr adran 84B newydd i’r gweithlu ysgolion (gan mai diwygiad ydyw i Ran 3 o Ddeddf Addysg 2005), ond mae’r Mater 5.15B a’r Mater

diwygiedig 5.16(c) yn gymwys i weithlu'r ysgolion ynghyd â'r gweithlu addysgol ehangach, fel a ddisgrifir ym Mater 5.15A.

**B) Cyllido'r System Addysg Cyn-16**

35. Byddai'r cymal [j038] yn mewnosod Mater newydd ym Maes 5: Addysg a Hyfforddiant yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, mewn perthynas â chyllido'r system addysg cyn-16.

**Y cyd-destun**

36. Mae'r darpariaethau presennol mewn nifer o ddeddfau yn rhoi i Lywodraeth y Cynulliad ei chymhwysedd gweithredol i gyllido ysgolion. Fodd bynnag, mae cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn gyfyngedig, ac nid yw'n caniatáu i'r Cynulliad ddarparu ar gyfer cyllido'r holl system addysg cyn-16 mewn modd holistig.

**Y Sefyllfa Bolisi Gyfredol yng Nghymru**

37. Gyda'r nod o gyflenwi gwell gwasanaethau addysgol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn prysuro ymlaen â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, ar y cyd â'r awdurdodau lleol a'r ysgolion. Agenda ar gyfer gwella ysgolion yw'r Fframwaith, sy'n seiliedig ar gael ysgolion ac awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd. Pwrpas y cydweithio yw rhannu'r arferion gorau, rhannu adnoddau a chyfleusterau a thrwy hynny agor cyfleoedd newydd i ddysgwyr.

38. Mae'n bosibl y byddai angen newid y gyfraith er mwyn sicrhau'r newid hwn yn y system addysg. Byddai ychwanegu'r cymhwysedd deddfwriaethol hwn yn golygu y gallai Llywodraeth y Cynulliad ystyried y maes polisi dan sylw mewn ffordd fwy holistig ac, yn unol â gweddill Maes 5 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, dwyn Mesur gerbron, i'w ystyried gan y Cynulliad, ynglŷn â chyllido addysg neu hyfforddiant cyn-16 yng Nghymru.

**MESUR ADDYSG**

39. Mewn perthynas ag ysgolion, mae gan y Cynulliad eisoes gymhwysedd deddfwriaethol eang, sy'n cwmpasu materion megis derbyn disgyblion, ymddygiad a sefydlu a llywodraethu ysgolion. Mae ganddo hefyd y pŵer i wneud Mesurau Cynulliad ynglŷn â chyllido addysg ôl-16 (a ddiffinnir gan eithrio addysg uwch). Eto, nid yw cyllid ar gyfer addysg o dan 16 oed o fewn y cymhwysedd, ac ni all y Cynulliad wneud Mesurau ynglŷn â'r modd y cyllidir ysgolion.

40. Nid yw'r polisi eto'n eglur ynghylch goblygiadau hyn i'r gyfraith ar gyllido addysg i ddysgwyr o dan 16 oed, ond bellach daeth yn fwyfwy amlwg bod y system addysg ar drothwy cyfnod newydd. Mae'n bwysig, yn ein barn ni, bod y Cynulliad yn cael y pŵer i ddeddfu, fel y gallwn ymgysylltu â darparwyr addysg a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru, gyda golwg ar gyflwyno Mesur Cynulliad a allai ddarparu model gwahanol ar gyfer cyllido addysg.
Mae polisi bellach yn ymbellhau oddi wrth y strwythur cyllido hierarchaidd presennol, sef ysgolion a gyllidir ac a gefnogir gan awdurdodau lleol, ac sydd, yn eu tro yn gweithredu fel unedau unigol; yn y strwythur newydd sy'n esblygu, mae llawer mwy o ryngweithio rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a darparwyr addysg. Gall hynny olygu, er enghraifft, newid i gyllido drwy gonsortia, neu ragnodi rywfodd neu'i gilydd y modd y defnyddir yr adnoddau.

**Cwmpas y pwerau arfaethedig**

41. Byddai Mater 5.6A yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad mewn perthynas â chyllido addysg neu hyfforddiant cyn-16 yng Nghymru.

42. Byddai'r pŵer fframwaith, ynghyd â'r cymhwysedd deddfwriaethol sydd eisoes ym Maes 5 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, yn galluogi'r Cynulliad i wneud Mesur Cynulliad a fyddai'n sefydlu dulliau eraill o gyllido addysg gan y Llywodraeth yn y dyfodol. Mae'n cwmpasu cyllido unrhyw rai neu'r cyfan o swyddogaethau addysg cyn-16 yr awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru, neu'r cyrff llywodraethu. Er mwyn caniatáu i LICC gynllunio mewn ffordd holistig ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch cyllido addysg cyn-16, mae'r

pŵer yn ddigon eang a hyblyg i alluogi gwneud Mesur a fyddai'n caniatáu trosglwyddo cyllido addysg neu hyfforddiant cyn-16 i un neu ragor o gyrff eraill. Gallai cyrff o'r fath fod yn awdurdodau lleol, yn gyrff llywodraethu neu'n ysgolion; neu gallai'r Cynulliad ei hunan, neu gorff arall nad yw'n bodoli ar hyn o bryd ddarparu cyllid yn uniongyrchol. Byddai modd i Lywodraeth y Cynulliad gynnig deddfwriaeth a fyddai'n cynnwys cyllido ysgolion annibynnol yng Nghymru (hwyrach drwy gyfrwng pŵer i roi grantiau), pe bai o'r farn mai dyna fyddai'r ffordd orau i fodloni unrhyw angen penodol ynglŷn ag addysg cyn-16.

## CYFYNGIADAU CYFFREDINOL AR GYMHWYSEDD

### Terfynau daearyddol

43. Mae adran 94 o Ddeddf 2006 yn darparu bod Mesur Cynulliad y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os yw'n gymwys rhywfodd heblaw mewn perthynas â Chymru, neu os yw'n rhoi, gosod, addasu neu ddiddymu swyddogaethau sy'n arferadwy rhywfodd heblaw mewn perthynas â Chymru (neu'n rhoi pŵer i wneud hynny). Gwneir eithriadau cyfyngedig yn achos rhai mathau o ddarpariaeth ategol; er enghraifft, darpariaeth sy'n briodol er mwyn gwneud darpariaethau'r Mesur yn effeithiol, darpariaeth i alluogi gorfodi darpariaethau'r Mesur, neu ddarpariaeth ar gyfer gwneud diwygiadau canlyniadol mewn deddfwriaeth arall.

44. Byddai pŵer fframwaith sy'n rhoi pŵer i'r Cynulliad ynglŷn â chyllido'r system addysg yng Nghymru hefyd yn darparu cymhwysedd i wneud Mesur ynglŷn â chyllido disgyblion o Gymru sydd mewn ysgolion y tu allan i Gymru. Enghreifftiau posibl o hynny fyddai lleoli disgybl o Gymru sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn darpariaeth arbenigol, neu leoli a chyllido disgybl o Gymru, y gofelir amdano gan awdurdod lleol yng Nghymru, mewn ysgol yn rhywle y tu allan i Gymru.

**MESUR ADDYSG**

**Swyddogaethau Gweinidog y Goron**

45. Yn rhinwedd Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni chaiff y Cynulliad, drwy gyfrwng Mesur, newid na diddymu swyddogaethau Gweinidog y Goron heb ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol (ac ni chaiff greu unrhyw swyddogaethau newydd i Weinidog y Goron, ac eithrio mewn perthynas â'r iaith Gymraeg). Nid yw'r darpariaethau arfaethedig eu hunain yn addasu nac yn diddymu unrhyw swyddogaethau Gweinidog y Goron. Yn achos cynigion yn y dyfodol am Fesurau Cynulliad a allai effeithio ar swyddogaethau Gweinidog y Goron, byddid yn ymgynghori yn gyntaf ag Adrannau priodol Llywodraeth y DU ac yn ceisio cael cytundeb, cyn y gellid gwneud unrhyw newid neu addasiad i'r swyddogaethau hynny.